# Y Pwyllgor Busnes

**Cofnodion BC(3)28-08**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 4 Tachwedd 2008

**Amser:** 8.30 a.m.

**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod 4ydd Llawr, yr Uned Gorfforaethol

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**

Dafydd Elis-Thomas, Y Llywydd (Cadeirydd)

Carwyn Jones, Arweinydd y Tŷ

Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

William Graham, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig

Kirsty Williams, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Tŷ

Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol

Sulafa Halstead, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau

Marc Wyn Jones, Clerc y Pwyllgor Busnes

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**(i) BC(3)27-08 (Cofnodion drafft) - Dydd Mawrth 21 Hydref 2008**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf ddrafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, byddent yn cael eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi.

**Cam i'w gymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

**3. Busnes i ddod**

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)28-08(p1)**

3.1 Dywedodd Arweinydd y Tŷ y byddai Dirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth yn gwneud datganiad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am Economi Cymru a'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth.

3.2 Nododd y Pwyllgor y byddai cynnig i atal Rheolau Sefydlog yn cael ei gyflwyno ddydd Mawrth er mwyn dwyn ymlaen cynigion i ethol Alun Cairns fel aelod o'r Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol a'r Pwyllgor ar y Mesur Llywodraeth Leol yn lle Nick Ramsay.

3.3 Nododd y Pwyllgor na fyddai Cyfnod Pleidleisio ddydd Mawrth ac na ddylai'r Cyfnod Pleidleisio ddigwydd cyn 5pm ddydd Mercher.

3.4 Nododd y Pwyllgor drefn busnes ar gyfer 4 a 5 Tachwedd 2008.

**Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)28-08(p2)**

3.5 Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

**Amserlen busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)26-08(p3)**

3.6 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i drefnu dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol ar Ganiatâd Tybiedig ar gyfer Rhoi Organau ar 26 Tachwedd.

3.7 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

3.8 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

**4. Trefn Busnes**

**Papur ar Reoli Llif Deddfwriaeth - BC(3)27-08(p4)**

4.1 Yn ei gyfarfod ar 21 Hydref, bu'r Pwyllgor Busnes yn trafod papur ar reoli llif Deddfwriaeth. Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor yn dychwelyd at y materion yn dilyn rhagor o ymgynghori â grwpiau. Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar y canlynol:

I sefydlu pum pwyllgor deddfwriaeth parhaol, pob un â phum aelod ynghyd â chadeirydd na fyddai'n pleidleisio;

Dylai un o'r pwyllgorau ymdrin, yn bennaf, â chynigion deddfwriaethol a gynigir gan Aelodau Cynulliad unigol a phwyllgorau a dylai'r pedwar arall ymdrin, yn bennaf, â deddfwriaeth y Llywodraeth;

Byddai aelodaeth y pwyllgorau'n barhaol ond byddai dirprwyon yn cael eu caniatáu, gyda Grwpiau'n gyfrifol am ddatrys unrhyw wrthdaro o ganlyniad i hynny.

4.2 Cynigiwyd y dylai'r Dirprwy Lywydd fod yn gadeirydd dibleidlais y pwyllgor a fyddai'n ymdrin â deddfwriaeth a gynigir gan Aelodau Cynulliad a phwyllgorau.

**Papur ar amserlen y Pwyllgor ar gyfer Ionawr - Gorffennaf 2009 - BC(3)28-08(p5)**

4.3 Bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried papur ar amserlen y Pwyllgor ar gyfer y cyfnod o Ionawr - Gorffennaf 2009. Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar y cynnig am amserlen pwyllgor ddiwygiedig.

4.4 Hefyd cytunodd y Pwyllgor i barhau i adolygu'r modd y mae'r amserlen yn cael ei gweithredu er mwyn sicrhau bod y defnydd gorau'n cael ei wneud o amser Aelodau.

**5. Deddfwriaeth**

**Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Diwydiant Cig Coch Cymru - BC(3)28-08(p6)**

5.1 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i'r cais gan Gadeirydd y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Diwydiant Cig Coch Cymru, i ymestyn y dyddiad cau i'r Pwyllgor roi adroddiad, o un wythnos, i 12 Rhagfyr.

**6. Unrhyw fater arall**

**Llythyr drafft at Aelodau'r cyn Bwyllgor Darlledu**

6.1 Dywedodd y Llywydd bod y Pwyllgor Busnes wedi derbyn cais i sefydlu Pwyllgor Cyfathrebu o aelodaeth y cyn Bwyllgor Darlledu. Nodwyd bod y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant wedi cytuno i sefydlu is-bwyllgor i ystyried materion mewn perthynas ag adolygiad Ofcom o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus.

6.2 Yn wyneb hyn, cytunwyd i anfon ateb at y Pwyllgor Darlledu yn egluro na allai'r Pwyllgor Busnes gefnogi sefydlu pwyllgor ychwanegol.

6.3 Gofynnodd y Rheolwyr Busnes am bapur, yn ei dro, ar yr opsiynau ar gyfer adolygu portffolios pwyllgorau craffu er mwyn sicrhau y gellid mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â chyfathrebu yn eu cyfanrwydd.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**